

PARTNERIAETH COFRESTR TAI GYFFREDIN GWYNEDD

PROTOCOL RHANNU GWYBODAETH



Grŵp
Cynefin



TÎM OPSIYNAU TAI CYNGOR GWYNEDD

Sydd yn rheoli'r Gofrestr Tai Gyffredin ar ran Tai Gogledd Cymru,
Grŵp Cynefin a Cartrefi Cymunedol Gwynedd.

GWYNEDD COUNCIL'S HOUSING OPTIONS TEAM

Manage the Common Housing Register on behalf of North Wales Housing,
Grŵp Cynefin and Cartrefi Cymunedol Gwynedd.

Fersiwn: Tachwedd 2014

**Tîm Opsiynau Tai
Cyngor Gwynedd
Penrallt
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1BN
01286 685100
opsiynautai@gwynedd.gov.uk
www.gwyneddhousing.org.uk
www.gwynedd.gov.uk**

Cynnwys

Rhan A	Cyflwyniad i'r PRhG yma	1
1	Cwmpas a phwrpas y PRhG yma	1
2	Swyddogaethau lefel uchel y PRhG yma	1
3	Defnyddwyr Gwasanaeth a gynhwysir yn y PRhG yma	1
4	Buddion i Ddefnyddwyr Gwasanaeth	1
5	Manylion gwybodaeth bersonol a rannir	2
6	Gwybodaeth allweddol i adnabod	2
7	Y sefydliadau partner sy'n rhannu gwybodaeth	2
Rhan B	Cyfanwhad dros rannu gwybodaeth bersonol	4
8	Pwerau deddfwriaethol/statudol	4
9	Caniatâd	4
Rhan C	Trefniadau gweithredol er gyfer y PRhG yma	6
10	Crynodeb	6
11	Prosesu gwybodaeth yn deg	6
12	Sicrhau caniatâd	6
13	Caniatâd wedi ei wrthod a'i dynnu'n ôl	7
14	Cofnodi caniatâd	7
15	Rhannu gwybodaeth heb ganiatâd	7
16	Camau i'w cymryd lle and oes capasiti meddyliol gan unigolyn	8
17	Amhariad capasiti dros dro	8
18	Casglu gwybodaeth	8
19	Amllder rhannu gwybodaeth	8
20	Diogelwch gwybodaeth	8
21	Cwynion	9
22	Adolygu'r PRhG yma	9
Rhan D	Dulliau ac arolygu ar gyfer rhannu gwybodaeth bersonol i gefnogi'r PRhG yma	10
23	Tabl cyfeirnod llif gwybodaeth	10

Rhan A – Cyflwyniad i'r PrhG yma

1. Cwmpas a phwrpas y PRhG yma

- 1.1 Mae'r Protocol Rhannu Gwybodaeth (PRhG) yma yn seiliedig ar egwyddorion Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI), ac wedi ei gytuno rhwng y sefydliadau partner sy'n cymryd rhan. Mae'r partneriaid wedi cymryd ystyriaeth o'r cynnwys wrth ddatblygu'r ddogfen yma.
- 1.2 Mae'r PRhG yma wedi ei ddarparu i gefnogi rhannu gwybodaeth bersonol gyson ar gyfer darparu gwasanaethau tai ar draws sir Gwynedd; yn cynnwys gweithredu'r gofrestr tai gyffredin.
- 1.3 Mae'n cefnogi'r sefydliadau partner sy'n rhannu gwybodaeth a'r grwpiau o Ddefnyddwyr Gwasanaeth yr effeithir arnynt. Mae'n manylu ar y pwrpasau penodol dros rannu a'r wybodaeth bersonol a rannir, y trefniadau gweithredol angenrheidiol, prosesau caniatâd, a'r cyfiawnhad cyfreithiol.
- 1.4 Bwriad rhannu gwybodaeth ydi i alluogi'r partneriaid i gyd-weithio er mwyn adnabod a dyrannu eiddo a chyflawni dyrannu eiddo wedi ei ganoli o gwmpas y person, mewn proses fydd yn profi i fod yn ddiwriad ac amsero i unigolion a sefydliadau. Bydd y gwasanaeth yn gwella dyrannu eiddo gydag annibyniaeth gynyddol i'r unigolyn trwy gefnogaeth ac adolygiad cyfredol.
- 1.5 Mae'r Protocol Rhannu Gwybodaeth yma yn ymdrin â chyfnewid gwybodaeth rhwng Cyngor Gwynedd, Cartrefi Cymunedol Gwynedd, Grŵp Cynefin a Tai Gogledd Cymru.
- 1.6 Gall y wybodaeth yma hefyd gael ei rannu er mwyn cefnogi gweinyddiaeth effeithiol, awdit, monitro, archwilio gwasanaethau a gofynion adrodd. Gall partneriaid ond ddefnyddio'r wybodaeth sydd wedi ei ddatgelu iddynt o dan y PRhG yma ar gyfer y pwrpasau penodol sydd wedi eu cynnwys yn y ddogfen yma.

2. Swyddogaethau Lefel Uchel y PRhG yma

- 2.1 Mae'r swyddogaethau y mae'r gymuned rhannu gwybodaeth yma yn edrych i'w gefnogi yn cynnwys:
 - Darparu cyngor opsiynau tai gan gynnwys atal digartrefedd
 - Prosesu ceisiadau am eiddo
 - Asesu anghenion y defnyddiwr gwasanaeth a chytuno ar ddarpariaeth gwasanaeth
 - Dyrannu eiddo a'r rheolaeth tenantiaeth ddilynol
 - Adolygiad o ddarpariaeth gwasanaeth i gyd-fynd gydag anghenion cyfredol a rhai sy'n newidNid ydi gwybodaeth bersonol sy'n cael ei rannu i gefnogi swyddogaethau ar wahân i'r rhai restrir uchod yn cael ei gefnogi gan y PRhG yma.

3. Defnyddwyr Gwasanaeth i'w cynnwys yn y PRhG yma

- 3.1 Mae'r Defnyddwyr Gwasanaeth y mae'r PRhG yma yn berthnasol iddynt yn cynnwys:
 - Unrhyw unigolyn dros 16 mlwydd oed sydd yn ceisio eiddo fforddiadwy yng Ngwynedd.

4. Buddion i Ddefnyddwyr Gwasanaeth

- 4.1 Mae'r buddion i Ddefnyddwyr Gwasanaeth yn cynnwys:
 - Galluogi'r asesiad cydwedd o angen ar draws sefydliadau'n unigol sydd yn osgoi dyblygiad a'r angen i'r defnyddiwr gwasanaeth ddarparu gwybodaeth i wahanol sefydliadau

- Hwyluso darpariaeth eiddo addas
- Lleihau amserlenni asesu trwy gyfarfodydd ar y cyd a chynadleddau achos
- Hwyluso'r ddarpariaeth o gyngor opsiynau tai amserol a chynhwysfawr

5. Manylion Gwybodaeth Bersonol i'w Rannu

5.1 Mae'r wybodaeth bersonol sydd i'w rannu ar gyfer pwrpas y PRhG yma yn cynnwys ystod o wybodaeth am anghenion ac amgylchiadau'r defnyddiwr gwasanaeth.

5.2 Gall y wybodaeth felly gynnwys:

- Enw
- Cyfeiriad(au) blaenorol
- Dyddiad geni
- Rhif yswiriant cenedlaethol
- Manylion aelodau'r teulu
- Statws iechyd meddwl ac asesiad risg
- Diagnosis a meddyginiaeth
- Materion iechyd a lles yn cynnwys rhai yn gysylltiedig ag anabledd neu amhariad
- Ffactorau cymdeithasol gan gynnwys rhai perthynol i ofal cymdeithasol
- Statws digartrefedd
- Ymglymiad gydag asiantaethau eraill
- Gwybodaeth ariannol, cyflogaeth ac am fudd-daliadau
- Manylion o euogfarnau troseddol wedi eu datgelu
- Manylion cyswllt
- Gwybodaeth diogelwch staff (nodyn rhybudd)
- Gwybodaeth geirda landlord
- Manylion tenantiaeth gyfredol neu flaenorol (yn cynnwys unrhyw ddyledion rhent)

5.3 Defnyddir yr wybodaeth yma i asesu'r angen am eiddo tra hefyd yn galluogi darparwyr eiddo i asesu darpariaeth eiddo yn erbyn anghenion cyfredol ac i'r dyfodol y defnyddiwr gwasanaeth. Bydd adolygiadau cyson fel y bydd amgylchiadau yn newid yn sicrhau y bydd y gefnogaeth briodol yn cael ei ddarparu i gynorthwyo'r person aros mewn eiddo addas.

5.4 Dim ond y lleiafswm angenrheidiol o wybodaeth bersonol fydd yn cael ei rannu yn gyson gyda'r pwrpasau fel yr amlinellir yn y ddogfen yma.

6. Gwybodaeth adnabod allweddol

6.1 Wrth rannu gwbodaeth, bydd y ffactorau adnabod a ganlyn yn cael eu defnyddio lle maent ar gael, i sicrhau fod y sefydliadau partner yn cyfeirio at yr un Defnyddiwr Gwasanaeth:

- Enw (pob un sy'n wybyddus)
- Dyddiad geni
- Cyfeiriad
- Rhif yswiriant cenedlaethol
- Rhif darparu gwasanaeth (ên enghraifft rhif cyfeirnod cais)

7. Y Sefydliadau Partner sydd yn rhannu gwybodaeth

7.1 Mae'r PRhG yma yn cwmpasu rhannu gwybodaeth rhwng staff y sefydliadau a ganlyn sydd yn darparu'r gwasanaeth a amlinellir yn y ddogfen yma:

Sefydliadau Partner sy'n Rhannu Gwybodaeth	Rheolwr Cyfrifol
Cyngor Gwynedd	Arweinydd Tîm Opsiynau Tai
Cartrefi Cymunedol Gwynedd	Rheolwr Gosod Tai
Grŵp Cynefin	Rheolydd Tenantiaethau / Uwch Swyddog Tai
Tai Gogledd Cymru	Arweinydd Tîm Tai Lleol

- 7.2 Bydd y rheolwyr y cyfeirir atynt uchod gyda'r cyfrifoldeb cyffredinol am y PRhG yma o fewn eu sefydliadau a rhaid felly sicrhau fod y PRhG wedi ei ledaenu, wedi ei ddeall ac wedi ei weithredu arno gan y staff perthnasol.
- 7.3 Mae staff y sefydliadau partner sydd yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r Defnyddiwr gwasanaeth er mwyn cario allan y swyddogaethau a ddisgrifir yn y PRhG yma, wedi eu clymu i'r ddogfen.
- 7.4 Mae'r term 'staff' yn cynnwys gweithwyr sy'n cael eu talu, gwirfoddolwyr, myfyrwyr ac unrhyw weithiwr dros dro wedi ei gymeradwyo gan y sefydliad sy'n cyflogi / gwesteia, ac y mae eu dyletswyddau yn berthnasol i'r swyddogaethau a amlinellir yn y PRhG yma.
- 7.5 Bydd y sefydliadau partner yn sicrhau fod pob staff cyfredol a newydd ei apwyntio yn derbyn yr hyfforddiant priodol yng ngweithrediad y PRhG yma.

Rhan B - Cyfiawnhad dros rannu gwybodaeth bersonol

Noder: Ni ddylai staff betruso i rannu gwybodaeth bersonol er mwyn atal camdriniaeth neu niwed difrifol, mewn sefyllfaoedd brys neu byw-neu-farw. Os oes yna bryderon ynglŷn â materion diogelwch plant neu oedolion dylai'r gweithdrefnau sefydliadol perthnasol cael eu dilyn.

8. Pwerau Deddfwriaethol / Statudol

- 8.1 Bydd datgelu gwybodaeth yn cael ei gario allan oddi fewn i fframwaith cyfreithiol y Ddeddf Diogelu Data 1998 (DDD), Deddf Hawliau Dynol 1998 ac mewn cydymffurfiaeth a dyletswydd ymddiried y gyfraith gyffredin.
- 8.2 Mae'n ofynnol ar awdurdodau lleol weithredu cynllun gosod tai yn unol ag adran 167 o Ddeddf Tai 1996 sydd yn pennu'r blaenoriaethau a'r broses i'w ddilyn i osod eiddo yn seiliedig ar asesiad o angen o fewn ardal. Mae hyn yn cyfleu hawl ymhlyg i rannu gwybodaeth. Ymhellach mae adran 170 o'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau pellach ar gyfer cydweithio i osod eiddo.
- 8.3 Mae gan awdurdodau lleol hefyd bwerau mwy eang o dan adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 i hybu neu wella llesiant cymdeithasol eu hardal. Mae hyn yn cyfleu hawl ymhlyg i rannu gwybodaeth gyda gwasanaethau statudol eraill a'r sector annibynnol.
- 8.4 Mae adran 184 Rhan 7 o Ddeddf Tai 1996 yn darparu ar gyfer gwneud ymholiadau priodol er mwyn bodloni fod person yn addas ar gyfer cymorth ac os oes dyletswydd iddynt o dan ddeddfwriaeth ddigartrefedd. Mae hyn yn cyfleu hawl ymhlyg i rannu gwybodaeth.
- 8.5 Mae adran 47 o Ddeddf Gofal Cymdeithasol a GIG 1990 yn darparu ar gyfer awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol i ymglymu staffasiantaethau iechyd a thai er mwyn paratoi asesiadau cynhwysfawr angen. Gellir ymhlygu o'r dyletswydd yma fod yna bwer i rannu gwybodaethgyda sefydliadau iechyd a thai.
- 8.6 Mae adran 115 o Ddeddf Trosedd ac Anrhefn 1998 yn rhoi pŵer i ddatgelu gwybodaeth i awdurdodau penodedig perthnasol lle mae datgelu gwybodaeth yn angenrheidiol neu'n hwylus ar gyfer pwrpasau'r Ddeddf. Mae hyn yn cyfleu hawl ymhlyg i rannu gwybodaeth.
- 8.7 Bydd angen i aelodau Partneriaeth Cofrestr Tai Gyffredin Gwynedd rannu gwybodaeth bersonol fel rhan o'u cyfraniad mewn cyfarfodydd aml-asiantaethol, er enghraifft MARAC (Cynhadledd Asesu Risg Aml Asiantaethol), MAPPA (Trefniadau Gwarchod y Cyhoedd Aml Asiantaethol), Cynhadleddau Achos, Adolygiadau Achos Difrifol.
- 8.8 Mae adran 95 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cydweithio rhwng awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (a darparwyr eraill o lety cymdeithasol) yng ngweithrediad unrhyw un o'r swyddogaethau yn Rhan 2 o'r Ddeddf (darpariaethau digartrefedd).

9. Caniatâd

- 9.1 Fel arfer bydd angen caniatâd i rannu gwybodaeth rhwng sefydliadau partner. Er mwyn darparu caniatâd gwybodus dilys bydd angen i'r defnyddiwr gwasanaeth neu ei gynrychiolydd cyfreithiol gael gwybodaeth briodol i'w galluogi i wneud penderfyniad gwybodus.
- 9.2 Bydd caniatâd ymhlyg yn cael ei roi pan fydd defnyddiwr gwasanaeth yn gwneud rhywbeth trwy wybod wrth wneud hynny y bydd wedi cytuno i ddefnydd penodol neu ddatgelu gwybodaeth.

- 9.3 Bydd caniatâd eglur yn cael ei roi gan ddefnyddiwr gwasanaeth yn cytuno'n weithgar, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, i ddefnydd penodol neu ddatgelu gwybodaeth. Gall gael ei fynegi ar lafar neu'n ysgrifenedig, er byddai caniatâd ysgrifenedig yn well gan ei fod yn lleihau'r sgôp am anghydfod maes o law.
- 9.4 Ni ddylai caniatâd gael ei sicrhau trwy orfodaeth nac ei ymhlygu trwy ddiffyg ymateb am gais am ganiatâd. Bydd angen i'r gweithiwr fod yn fodlon fod y defnyddiwr gwasanaeth yn deall y trefniadau rhannu gwybodaeth a goblygiadau rhoi neu wrthod caniatâd.
- 9.5 Ni ddylai caniatâd gael ei drin fel cyflwr parhaol. Dylai cyfleoedd i adolygu caniatâd parhaol y defnyddiwr gwasanaeth i rannu gwybodaeth godi trwy ddarparu'r gwasanaeth. Dylai'r gweithiwr ymarfer barn broffesiynol i bennu ac ydyw yn briodol i ail-ystyried caniatâd parhaus defnyddiwr gwasanaeth ar unrhyw un adeg. Yn ddelfrydol dylai gymryd lle yng nghyd-destun adolygiad neu ailasesiad.

Rhan C – Dulliau gweithredu ar gyfer y PRhG yma

10. Crynodeb

- 10.1 Dim ond y lleiafswm angenrheidiol o wybodaeth bersonol y dylid ei rannu ar sail angen-i-wybod a dim ond pan y bydd yn cefnogi trosgludiad pawrpsau a swyddogaethau'r PRhG yma.
- 10.2 Bydd gwybodaeth bersonol ond yn cael ei gasglu trwy ddefnyddio'r dulliau casglu cymeradwy, a sicrhau fod yr wybodaeth angenrheidiol yn gyflawn a chyfredol.
- 10.3 Dylid cymryd pob cam rhesymol i sicrhau fod unrhyw un sydd wedi derbyn gwybodaeth yn cael eu hysbysu o unrhyw newid ac os oes yna unrhyw anghywirdeb y bydd y gwelliannau angenrheidiol yn cael eu gwneud.
- 10.4 Ni ddylai unrhyw benderfyniad am ddefnyddiwr gwasanaeth gael ei wneud yn seiliedig ar wybodaeth anghywir, anghyflawn neu allan o ddyddiad.
- 10.5 Ni fydd gwybodaeth a ddarparir gan sefydliadau partner yn cael ei ddatgelu i drydydd parti heb ganiatâd y sefydliad sydd berchen yr wybodaeth.
- 10.6 Dylai staff hefyd ddilyn gweithdrefnau ymdrin â gwybodaeth bersonol eu sefydliad eu hunain.

Noder: Ni ddylai staff betruso i rannu gwybodaeth bersonol er mwyn atal camdriniaeth neu niwed difrifol, mewn sefyllfaoedd brys neu byw-neu-farw. Os oes yna bryderon ynglŷn â materion diogelwch plant neu oedolion dylsai'r gweithdrefnau sefydliadol perthnaosl cael eu dilyn.

11. Prosesu gwybodaeth yn deg

- 11.1 Mae'n ofynnol i gyfathrebu gyda'r defnyddiwr gwasanaeth neu ei gynrychiolydd cyfreithiol am yr angen i rannu gwybodaeth ar y cyfle cyntaf posibl, yn ddefnyddol yn ystod y cyswllt cyntaf.
- 11.2 Bydd bod yn glir ac agored gyda defnyddwyr gwasanaeth am sut y bydd eu gwybodaeth bersonol yn cael ei ddefnyddio yn eu galluogi i wneud penderfyniad gwybodus parthed caniatáu rhannu eu gwybodaeth.
- 11.3 Bydd Opsiynau Tai Gwynedd yn hysbysu'r defnyddiwr gwasanaeth yn glir am pa wybodaeth bersonol fydd yn cael ei rannu, pwy y rhennir yr wybodaeth rhyngddynt, pam fod angen i'r wybodaeth gael ei rannu ac i pa bwrpas y'i defnyddir.
- 11.4 Dulliau wedi eu cytuno ar gyfer darparu'r wybodaeth yma:
 - Ar lafar
 - Tudalennau gwe
 - Llyfrynau cynghori
 - Poster a thafleuni cyffredinol
 - Ffurflen gais am eiddo

12. Cael caniatâd

- 12.1 Dylai dull cael caniatâd fod yn dryloyw a pharchu'r defnyddiwr gwasanaeth.
- 12.2 I bwrpas y PRhG yma bydd angen caniatâd eglur gan y defnyddiwr gwasanaeth.

- 12.3 Dylsai sefydliadau partner fod yn abrod i fod yn agored gyda defnyddwyr gwasanaeth am y rôl y bydd eu caniatâd yn chwarae yn y broses rhannu gwybodaeth ac yn wir bod yn glir am y math o amgylchiadau lle gellir rhannu eu gwybodaeth bersonol heb iddynt wybod ac heb eu caniatâd.
- 12.4 Os bydd yna newid sylweddol yn nefnydd y wybodaeth o gymharu â'r hyn sydd wedi ei egluro eisoes, neu newid yn y berthynas rhwng sefydliad partner a'r defnyddiwr gwasanaeth, yna bydd angen ceisio am ganiatâd unwaith eto.
- 12.5 Bydd caniatâd a gafwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth ar gyfer pwrpasau'r PRhG yma ond yn cael ei ddefnyddio i gefnogi trosgludiad y pwrpasau a swyddogaethau sydd yn y ddogfen yma. Unwaith y bydd darpariaeth gwasanaeth y PRhG yma yn darfod, bydd y caniatâd a gafwyd hefyd yn darfod. Pe byddai angen darpariaeth gwasanaeth arall neu debyg yn y dyfodol byddai angen caniatâd newydd.
- 12.6 Dylsai staff ddefnyddio cyfleon megis adolygiadau neu asesiadau i gadarnhau eto ganiatâd y defnyddiwr gwasanaeth i wybodaeth gael ei rannu fel y cyfeirir ato yn y PRhG yma.

13. Caniatâd wedi ei wrthod neu dynnu'n ôl

- 13.1 Mae gan ddefnyddiwr gwasanaeth yr hawl i wrthod caniatâd i wybodaeth amdano gael ei rannu. Mae ganddynt hefyd yr hawl i dynnu' ôl y caniatâd i rannu gwybodaeth amdanynt ar unrhyw adeg. Wedi hynny ni ddylai unrhyw wybodaeth bersonol gael ei rannu.
- 13.2 Mewn amgylchiadau lle fo defnyddiwr gwasanaeth yn gwrthod neu dynnu caniatâd yn ôl, bydd goblygiadau hynny yn cael ei egluro wrtho a bydd cofnod o hynny yn cael ei gadw ar gofnod y defnyddiwr gwasanaeth. Os y bydd defnyddiwr gwasanaeth yn tynnu'n ôl y caniatâd i rannu gwybodaeth bydd angen egluro na all gwybodaeth sydd eisoes wedi ei rannu gael ei alw'n ôl. Gweler adran 16 isod am fwy o wybodaeth.

14. Cofnodi caniatâd

- 14.1 Dylid cofnodi ar gofnod achos y defnyddiwr gwasanaeth y caniatâd gan gynnwys sut a phryd yr oedd wedi ei sicrhau ac os oedd ar lafar neu yn ysgrifenedig.
- 14.2 Dylid cofnodi manylion unrhyw ganiatâd a wrthodwyd neu a dynnwyd yn ôl ynghyd ag unrhyw adolygiad o'r caniatâd maes o law.

15. Rhannu gwybodaeth heb ganiatâd

- 15.1 Caniateir i staff rannu gwybodaeth bersonol heb ganiatâd er mwyn atal camdriniaeth neu niwed difrifol i ddefnyddiwr gwasanaeth neu eraill. Os oes yna bryderon ynglŷn â materion diogelwch plant neu oedolion dylai'r gweithdrefnau sefydliadol perthnasol cael eu dilyn.
- 15.2 Gall gwybodaeth bersonol gael ei rannu yn gyfreithiol heb ganiatâd lle mae yna ofyn cyfreithiol neu lle mae unigolyn proffesiynol priodol o hynafedd digonol o fewn y sefydliad, wedi penderfynu y gall y ddyletswydd cyfrinachedd gael ei dorri mewn amgylchiadau eithriadol a lle mae yna ddiddordeb cyhoeddus gorgyrhaeddol. Gall sefyllfaoedd lle y gellir rhannu gwybodaeth heb ganiatâd gynnwys:
- Sefyllfa 'byw-neu-farw', er enghraifft lle y rhannir gwybodaeth mewn sefyllfa brys er mwyn diogelu bywyd;
 - Lle mae cyflwr person yn dynodi y gallent fod o risg i'r cyhoedd neu achosi niwed i'w hunain;
 - Er wyn atal camdriniaeth neu niwed difrifol i eraill;
 - Ar sail achos-wrth-achos, i atal troseddau difrifol ac i gefnogi datgeliad, ymchwiliad a chosbi troseddau difrifol.

Nid ydi'r rhestr yma yn un trwyadl.

15.3 Os y gwneir achos am ddiddordeb cyhoeddus sylweddol dylid datgan y cyfiawnhad yn glir a bydd unrhyw benderfyniad i rannu gwybodaeth bersonol gyda parti arall heb ganiatâd y defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei gofnodi'n llawn ar gofnod achos y defnyddiwr gwasanaeth. Bydd y cofnod yma yn cynnwys manylion y cyfiawnhad cyfreithiol neu manylion yr unigolyn proffesiynol priodol a awdurdododd y rhannu gwybodaeth.

15.4 Fel arfer bydd angen i'r defnyddiwr gwasanaeth gael ei hysbysu o'r penderfyniad yma ac o'r wybodaeth sydd wedi ei rannu; oni bai y byddai datgelu hyn yn achosi niwed i eraill neu yn amharu ar unrhyw ymchwiliad neu achos cyfreithiol.

16. Gweithrediadau i'w cymryd lle nad oes gan ddefnyddiwr gwasanaeth y gallu meddyliol

16.1 Mae Cod Ymarfer Deddf Gallu Feddyliol 2005 yn diffinio'r term 'person nad oes ganddo'r gallu meddyliol' fel person sydd heb y gallu i wneud penderfyniad neilltuol neu gymryd gweithred neilltuol drostynt eu hunain ar yr amser y mae angen cymryd y weithred.

16.2 Wrth ddelio gyda'r gallu i roi caniatâd dylid dilyn rheolau lleol a rhaid i'r rheolau hynny gydymffurfio gyda Deddf Gallu Feddyliol 2005 a'i God Ymarfer.

17. Amhariad dros dro ar allu

17.1 Pan y bydd person yn colli'r gallu meddyliol dros dro dylid gohirio'r caniatâd, os yn briodol, tan y gellir cael caniatâd. Bydd angen ceisio am ganiatâd i rannu gwybodaeth pan y bydd y gallu meddyliol wedi ei adennill.

17.2 Lle nad yw'n briodol i ohirio rhannu gwybodaeth ni fydd ychwaith yn briodol i ohirio'r caniatâd, ni ellir rhoi caniatâd ôl-weithredol. Felly, dim ond pan yn angenrheidiol y gellir rhannu gwybodaeth heb ganiatâd, gweler adran 15 uchod.

18. Casglu gwybodaeth

18.1 Yr offerynnau sydd wedi eu cymeradwyo ar gyfer casglu gwybodaeth bersonol a fanylir arno yn y PRhG yma ydi:

- Systemau TGCh y darparwyr gwasanaeth (gweler Rhan D)
- Ffurflen Gais am Eiddo (ffurflen bapur y gellir ei sganio a'i chadw'n electronig)
- Ffurflen Ymweliad Cartref (ffurflen bapur y gellir ei sganio a'i chadw'n electronig)
- E-byst ac atodiadau e-bost

19. Amllder rhannu gwybodaeth

19.1 Bydd gwybodaeth bersonol a amlinellir yn adran 5 ond yn cael ei rannu ar sail angen-i-wybod i gefnogi swyddogaethau'r PRhG yma.

19.2 Bydd sefydliadau partner yn rhannu gwybodaeth bersonol berthnasol pan fo'r angen yn codi.

19.3 Pan fydd newid i gofnod yn cael ei wneud, bydd angen cymryd pob cam rhesymol i sicrhau fod unrhyw un sydd wedi derbyn copi o'r cofnod wedi ei hysbysu o'r newid.

20. Diogelwch gwybodaeth

20.1 Bydd angen hysbysu unrhyw dorri ar ddiogelwch neu gyfrinachedd ac unrhyw droseidd o'r PRhG yma yn unol â gweithdrefnau adrodd digwyddiad pob sefydliad yn unigol.

21. Cwynion

21.1 Mae gan bob un o'r sefydliadau partner drefn ffurfiol y gall defnyddwyr gwasanaeth gyfeirio eu cwynion parthed gweithrediad y PRhG yma.

22. Adolygiad Y PRhG yma

22.1 Bydd y PRhG yma yn cael ei adolygu blwyddyn wedi'r cytundeb gwreiddiol a phob dwy flynedd wedi hynny neu'n gynharach os oes angen.

Rhan D – Dulliau ac arolygaeth ar gyfer rhannu gwybodaeth i gefnogi'r PRhG yma

23. Tabl cyfeirnod llif gwybodaeth

- 23.1 Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r wybodaeth bersonol sydd i'w rannu rhwng y sefydliadau partner, gyda phwy ymhob sefydliad y bydd yn cael ei rannu, pryd y bydd yn cael ei rannu, pam y bydd yn cael ei rannu a'r dulliau a ddefnyddir i'w rannu.
- 23.2 Bydd y tabl yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau fel yr angen, ac i adlewyrchu unrhyw newidiadau ym mhrosesu gwybodaeth bersonol y manylir arno yn y PRhG yma.

Tabl Cyfeirnod Llif Gwybodaeth

Rhannu gwybodaeth bersonol i gefnogi darparu eiddo (Cofrestr Tai Gyffredin)

	Disgrifiad	Cyfnwid Gwybodaeth 1	Cyfnwid Gwybodaeth 2	Cyfnwid Gwybodaeth 3	Cyfnwid Gwybodaeth 4
1 a	Cyfeirnod Llif Gwybodaeth Cyfeirnod a roddir i unrhyw brosesau llif gwybodaeth sy'n perthyn i bob set o wybodaeth	CHR001	CHR002	CHR003	CHR004
2 a	Swyddogaeth(au) Lefel Uwch Disgrifiad cyffredinol o'r swyddogaeth(au) neu wasanaeth(au) sy'n perthyn i'r wybodaeth	Cais am ffurflen gais / cyfeiriad Cwsmer yn ceisio am eiddo cymdeithasol yn bersonol neu trwy sefydliad partner	Asesiad Asesiad o addasrwydd angen yn erbyn argaeledd eiddo	Gosod a cyfeiriad ymlaen Gosod eiddo Rhyddhad	Adolygiad cyson Cynhadleddau achos Adolygiad ad-hoc
3 a	Gwybodaeth i'w rannu Disgrifiad o'r wybodaeth i'w ddarparu Noder: dim ond y lleiafswm a'r wybodaeth berthnasol sydd i'w rannu a hynny'n gaeth ar sail achos-wrth-achos	Enw Cyfeiriad(au) blaenorol Dyddiad geni Rhif yswiriant cenedlaethol Manylion aelodau'r teulu Statws iechyd meddwl ac asesiad risg Diagnosis a meddyginiaeth Ymglymiad gydag asiantaethau eraill Gwybodaeth ariannol, cyflogaeth ac am fudd-daliadau Manylion o euogfarnau troseddol wedi eu datgelu	Enw Cyfeiriad(au) blaenorol Dyddiad geni Rhif yswiriant cenedlaethol Manylion aelodau'r teulu Statws iechyd meddwl ac asesiad risg Diagnosis a meddyginiaeth Ymglymiad gydag asiantaethau eraill Gwybodaeth ariannol, cyflogaeth ac am fudd-daliadau Manylion o euogfarnau troseddol wedi eu datgelu	Enw Cyfeiriad(au) blaenorol Dyddiad geni Rhif yswiriant cenedlaethol Manylion aelodau'r teulu Statws iechyd meddwl ac asesiad risg Diagnosis a meddyginiaeth Ymglymiad gydag asiantaethau eraill Gwybodaeth ariannol, cyflogaeth ac am fudd-daliadau Manylion o euogfarnau troseddol wedi eu datgelu	Enw Cyfeiriad(au) blaenorol Dyddiad geni Rhif yswiriant cenedlaethol Manylion aelodau'r teulu Statws iechyd meddwl ac asesiad risg Diagnosis a meddyginiaeth Ymglymiad gyda asiantaethau eraill Gwybodaeth ariannol, cyflogaeth ac am fudd-daliadau Manylion o euogfarnau troseddol wedi eu datgelu

4	Dynodwyr personol wedi eu cynnwys yn yr uchod	Cyfenw Enw cyntaf Dyddiad geni Cyfeiriadau Rhif cyfeirnod Cod Post Rhif yswiriant cenedlaethol	Cyfenw Enw cyntaf Dyddiad geni Cyfeiriadau Rhif cyfeirnod Côd Post Rhif yswiriant cenedlaethol	Cyfenw Enw cyntaf Dyddiad geni Cyfeiriadau Rhif cyfeirnod Cod Post Rhif yswiriant cenedlaethol	Cyfenw Enw cyntaf Dyddiad geni Cyfeiriadau Rhif cyfeirnod Cod Post Rhif yswiriant cenedlaethol
a	Y prif ddynodwyr a ddefnyddir i adnabod y defnyddiwr gwasanaeth				
5	Sefydliad(au) sy'n darparu (Gan bwy)	Cyngor Gwynedd Cartrefi Cymunedol Gwynedd Grŵp Cynefin Tai Gogledd Cymru	Cyngor Gwynedd	Cyngor Gwynedd Cartrefi Cymunedol Gwynedd Grŵp Cynefin Tai Gogledd Cymru	Cyngor Gwynedd Cartrefi Cymunedol Gwynedd Grŵp Cynefin Tai Gogledd Cymru
a	Sefydliadau sy'n darparu				
b	Cyfadran(nau) neu Adran(nau) sy'n gyfrifol am ddarparu'r wybodaeth				
c	Rolau staff sy'n gyfrifol am ddarparu'r wybodaeth	Swyddog Tai / Swyddog Opsiynau Tai	Swyddog Opsiynau Tai	Swyddog Tai	Swyddog Tai
6	Sefydliad(au) sy'n derbyn (I bwy)	Cyngor Gwynedd	Cyngor Gwynedd Cartrefi Cymunedol Gwynedd Grŵp Cynefin Tai Gogledd Cymru	Cyngor Gwynedd Cartrefi Cymunedol Gwynedd Grŵp Cynefin Tai Gogledd Cymru	Cyngor Gwynedd Cartrefi Cymunedol Gwynedd Grŵp Cynefin Tai Gogledd Cymru
a	Sefydliad sy'n derbyn yr wybodaeth				
b	Cyfadran(nau) neu Adran(nau) sy'n gyfrifol am dderbyn yr wybodaeth	Tîm Opsiynau Tai	Adran Gosod Tai y LCC Partner Adran Digartrefedd Cyngor Gwynedd	Adran Gosod Tai y LCC Partner	Adran Gosod Tai y LCC Partner
c	Rolau staff sy'n gyfrifol am dderbyn yr wybodaeth	Swyddog Opsiynau Tai	Swyddog Tai / Swyddog Opsiynau Tai	Swyddog Tai	Swyddog Tai

7 a	Rheswm dros ddefnyddio'r wybodaeth (Pam / Pwrpas) Disgrifiad o pam mae amgen yr wybodaeth, e.e. cyfraith, arweiniad LIC, gofal unigolyn (gall mwy nac un rheswm fodoli)	I gychwyn y broses ymgeisio	I gasglu'r wybodaeth berthnasol a phriodol ar gyfer asesu anghenion yn erbyn argaeledd eiddo	I hyrwyddo cefnogaeth barhaus briodol yn yr eiddo mwyaf priodol	I gasglu'r wybodaeth berthnasol a phriodol ar gyfer asesu anghenion parhaus ac i fynd i'r afael a materion yn ystod y denantiaeth
8 a	Ffynhonnell data (Pa sistem) Adnabod o ba sistema(au) gwybodaeth y daw'r wybodaeth i'w rannu	n/a	Ffeiliau achos Capita Housing	Ffeiliau achos Capita Housing QXL IBS/ OPEN HOUSING	Ffeiliau achos Capita Housing QXL IBS / OPEN HOUSING
b	Adnabod y modiwl neu'r meysydd a ddefnyddir wrth ddefnyddio sistem TG sefydliad arall i rannu gwybodaeth. Manylion unrhyw ddata nad yw'n berthnasol ond sydd hefyd ar gael, gan gynnwys unrhyw asesiad risg sydd wedi ei wneud	n/a	Capita Housing wedi ei westeia gan Gyngor Gwynedd a mynediad iddo trwy feddalwedd citrix i'r LCC Partner	Capita Housing wedi ei westeia gan Gyngor Gwynedd a mynediad iddo trwy feddalwedd citrix i'r LCC Partner	n/a
9 a	Teitl ffurflen a chyfeirnod (Pa ffurflen) Teitl a chyfeirnod unrhyw ffurflen neu lythyr a ddefnyddir i gyfleu a/neu gasglu gwybodaeth	Ffurflen Gais am Eiddo Ffurflen Ymweliad Cartref	Ffurflen Gais am Eiddo Ffurflen Ymweliad Cartref	n/a	n/a
10 a	Sistem(au) / Cofnod(ion) cyrchfan (I ble) Y sutem(au) / cofnod(ion) neu unrhyw gyrchfan arall i'r wybodaeth	Capita Housing Ffolderi Rhannu Gwybodaeth Ffeil Cais	Capita Housing Ffolderi Rhannu Gwybodaeth Ffeil Cais	Capita Housing Ffolderi Rhannu Gwybodaeth Ffeil Cais Sustemau TGCh LCC Partner	Sustemau TGCh LCC Partner

11	Pryd cyfnewidwyd / rhannwyd (Pryd)	Yn ôl yr angen	Yn ôl yr angen	Yn ôl yr angen	Yn ôl yr angen
a	Manylion pryd sydd angen cyfnewid / rhannu gwybodaeth, e.e. dyddiol, wythnosol, misol, blynyddol, yn ôl yr angen				
12	Cyfryngau cysylltu (Sut)	Ar lafar Ffôn Cyfarfod Ffacs Llythyrau Mynediad i Capita Housing Mynediad i Ffolderi Rhannu Gwybodaeth Mynediad i Ddogfennaeth Cais	Ar lafar Ffôn Cyfarfod Ffacs Llythyrau Mynediad i Capita Housing Mynediad i Ffolderi Rhannu Gwybodaeth Mynediad i Ddogfennaeth Cais	Ar lafar Ffôn Cyfarfod Ffacs Llythyrau Mynediad i Capita Housing Mynediad i Ffolderi Rhannu Gwybodaeth Mynediad i Ddogfennaeth Cais	Ar lafar Ffôn Cyfarfod Ffacs Llythyrau Mynediad i Capita Housing Mynediad i Ffolderi Rhannu Gwybodaeth Mynediad i Ddogfennaeth Cais
a	Manylion yr holl gyfryngau ddefnyddir i drosglwyddo'r wybodaeth i'r derbynnydd, e.e. ffacs, feed uniongyrchol o'r sustem, trosglwyddiad llafar mewn cyfarfod tîm, galwad ffôn, ebost.				
13	Rheoli cyfryngau cysylltu (Sut)	Cyfarfodydd i'w cynnal mewn amgylchedd ddiogel E-bost diogel i'w ddefnyddio lle mae ar gael Rheolau TGCh – defnydd cyfrinair, rhaglenni 'backup'	Cyfarfodydd i'w cynnal mewn amgylchedd diogel E-bost diogel i'w ddefnyddio lle mae ar gael Rheolau TGCh – defnydd cyfrinair, rhaglenni 'backup'	Cyfarfodydd i'w cynnal mewn amgylchedd diogel E-bost diogel i'w ddefnyddio lle mae ar gael Rheolau TGCh – defnydd cyfrinair, rhaglenni 'backup'	Cyfarfodydd i'w cynnal mewn amgylchedd diogel E-bost diogel i'w ddefnyddio lle mae ar gael Rheolau TGCh – defnydd cyfrinair, rhaglenni 'backup'
a	Manylion sut y mae rheolau diogelwch wedi eu gosod, e.e. cyfrinair ar ddogfennau, dogfennau wedi eu hamgryptio, amgryptio cyfryngau, cynnwys unrhyw asesiadau risg				
14	Materion neu sylwadau heb eu cynnwys uchod	Dim	Dim	Dim	Dim